# LYNSEY ROGERS

## CLWB CRICED ABERPENNAR

Fe aeth Clwb Criced Aberpennar trwy gyfnod anodd yn 2021, a bu bron i'r clwb orfod dod i ben. Camodd Lynsey i'r adwy a chefnogodd y gwaith o ailstrwythuro'r clwb, a oedd yn cynnwys sefydlu'r sesiynau Allstars & Dynamos. Cefnogodd Lynsey y ddwy raglen, gan fynychu bob wythnos. Arweiniodd hyn at ddechrau tîm pêl feddal benywaidd newydd. Bellach, mae Lynsey yn is-gapten ar y tîm, yn ogystal â Swyddog Diogelu'r clwb, sy'n rôl hollbwysig. Mae hi'n rhoi llawer o'i hamser i'r clwb rhwng y sesiynau hyfforddi, gemau a chyfarfodydd pwyllgor. Mae hi hefyd yn helpu gyda'r citiau ac yn gofalu am les y chwaraewyr.

Llynedd, cafodd Lynsey ei chydnabod gan Criced Cymru a Bwrdd Criced Cymru a Lloegr am ei hymdrechion gwych. Derbyniodd wobr Arwr Di-glod yng ngwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Criced Cymru, a Gwobrau 'Cricket Collective' Tymor 2024.



# GWIRFODDOLWR Y MIS

## EBRILL 2025